SKANSC4

Cyflawni adnewyddiad, adfywiad a/neu welliant o’r croen gan ddefnyddio triniaethau llenwad croenol

## Trosolwg

Mae'r safon yma'n cydfodoli â, SKANSC1: Gweithredu a chynnal arferion gwaith diogel, glanwaith ac effeithiol yn ystod gweithdrefnau cosmetig dewisol nad ydynt yn llawfeddygol a SKANSC2: Ymgynghori, asesu, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau cosmetig dewisiol nad ydynt yn llawfeddygol o fewn yr amgylchedd waith. Mae'r safon yma ar gyfer ymarferwyr esthetig uwch sy'n cyflawni triniaethau. Mae'r safon yma ar gyfer ymarferwyr esthetig uwch sy'n cyflawni triniaethau si'n defnyddio llenwadau croenol er mwyn cuddio arwyddion o heneiddio, diwygio cymesureddau a strwythurau'r wyneb. Bydd gofyn i chi hefyd wneud gwerthusiad ar ôl y driniaeth ac adfyfyrio er mwyn gwelliant parhaus. Rhaid i'r ymarferydd esthetig gael cymhwyster Cymorth Cyntaf yn y Gweithle neu ei gyffelyb a gallu cyflawni'r swyddogaethau o fewn SFHCHS36: Cefnogaeth bywyd sylfaenol a gallu cael gafael ar gyfarpar cefnogi bywyd fel sydd wedi ei nodi yn y cynllun argyfwng. Bydd rhaid i ddefnyddwyr y safon yma wneud yn siwr bod eu harferion yn adlewyrchu'r wybodaeth, y polisïau, y gweithdrefnau a'r cyfarwyddyd am yr arfer orau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1.cynnal ymgynghoriad cryno a chynhwysfawr wyneb yn wyneb gyda’r unigolyn a cadw at eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch cyn, yn ystod ac ar ôl y driniaeth llenwad croenol

2.trafod er mwyn sefydlu amcanion yr unigolyn, ynghŷd â’i bryderon, disgwyliadau a chanlyniadau disgwyliedig yr unigolyn er mwyn hysbysu’r cynllun triniaeth llenwad croenol i gynnwys:
2.1 dewisiadau triniaeth amgen
3.datblygu cynllun argyfwng gyda’r unigolyn proffesiynol ym maes iechyd a nodwyd/rhagnodwr annibynnol sydd wedi ei reoleiddio a’i hyfforddi i ddelio ag adweithiau niweidiol i lenwadau croenol
4.sefydlu’r cynllun triniaeth llenwad croenol yn unol â gofynion deddfwriaethol a pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol i gynnwys:
4.1 y cynllun triniaeth unigol
4.2 cyngor, cefnogaeth a chyfarwyddyd
4.3 cynllun argyfwng
4.4 strategaeth rheoli poen
5.ailadrodd, cadarnhau a chytuno gyda’r unigolyn, ei fod wedi deall y driniaeth llenwad croenol arfaethedig a rheoli poen i gynnwys:
5.1 **gwrth weithredoedd**
5.2 adweithiau niweidiol
6.sicrhau cydsyniad gwybodus ysgrifenedig yr unigolyn ar gyfer y driniaeth llenwad corfforol, gan ganiatau amserlen ddigonol i’r unigolyn wneud dewis gwybodus
7.adolygu’r cydsyniad gwybodus ysgrifenedig ar gyfer y driniaeth llenwad corfforol a rheoli poen
8.dewis cynnyrch paratoi glendid effeithiol er mwyn cwrdd ag anghenion yr unigolyn yn unol â chyfarwyddiadau’r gwneuthurwr
9.paratoi man triniaeth yr unigolyn yn unol â’r protocol triniaeth  triniaeth llenwad corfforol a’r strategaethau cysylltiedig ar gyfer osgoi risg, i gynnwys:
9.1 gwneud marciau cyn triniaeth os yn briodol
10.cael gafael ar y llenwad croen asid hyalwronig a’i ddewis, gan fanylu ar y rhif cysefin G, gludogrwydd a hirhoedledd y cynnyrch er mwyn cwrdd ag anghenion yr unigolyn a’r fan sydd i’w drin, gan gynnwys y risgiau cysylltiedig
11.chwistrellu’r llenwad croen gyda nodwydd ddiheintiedig a gaiff ei defnyddio unwaith a/neu ganwla yn unol â’r protocol triniaeth llenwad croenol i gynnwys:
11.1 addasu **technegau chwistrellu**, dyfnder a lleoliad
11.2 yn unol â’r marciau cyn y driniaeth os yn berthnasol
12.monitro iechyd, lles ac adwaith croen yr unigolyn drwy gydol y driniaeth llenwad croenol, yn unol â gofynion deddfwriaethol a pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol
13.os oes yna adwaith neu ddigwyddiad niweidiol, mae’n rhaid i’r ymarferydd esthetig gymryd camau i’w gywiro ar fyrder, fel sydd wedi ei amlinellu o fewn y cynllun argyfwng i gynnwys:
13.1 ceisio a rhoi ar waith ymyrraeth feddygol ar unwaith gan yr unigolyn proffesiynol ym maes iechyd sydd wedi ei nodi a’i hyfforddi i ddelio gyda chymhlethdodau fel sydd wedi eu hamlinellu o fewn y cynllun argyfwng pan fod angen meddyginiaeth na ellir ei gael ond ar bresgripsiwn
14.cwblhau’r driniaeth yn unol â’r protocol triniaeth llenwad croenol, gofynion deddfwriaethol a pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol, i gynnwys:

14.1 cael gwared o unrhyw farciau cyn triniaeth, os yn berthnasol
15.cymryd a chadw delweddau gweledol cydsyniol o fan triniaeth yr unigolyn yn unol â gofynion yswiriant, polisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol
16.cwblhau a chadw cofnodion triniaeth gosemtig yr unigolyn sydd heb fod yn llawfeddygol yn unol â deddfwriaeth
17.defnyddio arfer adfyfyriol i werthuso’r driniaeth llenwad croenol a gweithredu’n briodol
18.rhoi a sicrhau cadarnhad eich bod wedi derbyn cyfarwyddiadau a chyngor geiriol ac ysgrifenedig a roddwyd i’r unigolyn cyn ac ar ôl y driniaeth i gynnwys:
18.1 manylion cyswllt yr ymarferwyr esthetig
18.2 cynllun argyfwng
18.3 cynllun wrth gefn os bydd rhywun yn absennol
19.cofnodi’r canlyniad y driniaeth llenwad croenol a’r gwerthusiad ohoni er mwyn cytuno ar ac hysbysu triniaethau yn y dyfodol
20.trafod a chytuno ar driniaethau yn y dyfodol gyda’r unigolyn

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*